

Adnodd 5: Pa mor anodd yw hi i fyw ar £5 y dydd?

<http://www.bbc.co.uk/news/magazine-22065978>

Mae pobl sy'n ceisio lloches yn y DU yn cael ychydig dros £5 y dydd i fyw arno. Caiff eu rhent a'u biliau eu talu gan y llywodraeth ond tra bydd eu cais yn cael ei brosesu nid oes hawl ganddynt i weithio. Mae angen arian arnyn nhw i dalu am y canlynol: -

Pethau angenrheidiol - megis past dannedd, diaroglydd, cynnyrch hylendid personol menywod, sebon.

Bwyd – yn dibynnu ar ble y byddan nhw'n byw efallai y byddant yn cael brecwast ond bydd yn rhaid prynu pob math o fwyd a diod arall ac yn aml ni fydd ganddynt ffordd o baratoi bwyd.

Teithio – gall ceisiadau fod yn anodd ac felly efallai y bydd yn rhaid i geiswyr lloches fynd i apwyntiadau gyda chyfreithwyr a allai fod filltiroedd o'u cartref. Efallai y bydd angen iddyn nhw fynychu apwyntiadau iechyd mewn ysbytai, neu ymweld â theulu a ffrindiau mewn rhannau eraill o'r DU.

Dillad – o ganlyniad i'r tymhorau gwahanol bydd angen mathau gwahanol iawn o ddillad yn y DU. Bydd angen esgidiau a dillad newydd yn rheolaidd ar blant sy'n tyfu ac oedolion ifanc.

Galwadau ffôn a mynediad i'r rhyngwrwd – Bydd gan y rhan fwyaf o bobl ffôn symudol a mynediad i'r rhyngwrwd; maen nhw'n bwysig i Geiswyr Lloches y gallent fod wedi gadael aelodau agos o'r teulu yn eu mamwlad neu gallent fod mewn rhannau gwahanol o'r DU.

Faint ydych chi'n ei wario mewn wythnos ar gyfartaledd?

<i>Faint ydych chi'n ei wario mewn wythnos?</i>	<i>Ar ddiwrnod wythnos/diwrnod ysgol – Llun-Gwen?</i>	<i>Ar y penwythnos?</i>	<i>Cyfanswm</i>
Trafnidiaeth – i'r ysgol ac o'r ysgol, gweithgareddau, tai ffrindiau.			
Siopa bwyd – prydau ysgol, byrbrydau, diodydd ac ati			
Bwyta/mynd allan e.e. Bwyd brys, siopau coffi, sinema, parc sglefrio, gemau chwaraeon, cerddoriaeth, cyngherddau, clybiau ac ati			
Pethau ymolchi e.e. Cynnyrch gwallt, diaroglydd, colur, eli ar gyfer plorod			
Bil Ffôn/Rhyngwrwyd			
Cyfanswm	Cyfanswm diwrnod ysgol?	Cyfanswm penwythnos?	Cyfanswm wythnos?
Gwariant arall:			

<p>Faint ydych chi'n ei wario ar dillad bob mis ar gyfartaledd? e.e. eitemau brand, dillad ffasiynol.</p>	
<p>Faint mae eich gwisg ysgol yn ei gostio ar gyfartaledd?</p>	
<p>Allwch chi feddwl am unrhyw gostau gwariant rheolaidd eraill?</p>	
<p>Sut y gallech ychwanegu'r gwariant hwn at eich cyfanswm wythnosol?</p>	